Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2024

Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliad 22) (fel y'i diwygiwyd yn 2015)

Hysbysiad o Gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru a Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru

Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd 2021 i 2036

Mae Cyngor Caerdydd wedi cyflwyno cynigion ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) i Lywodraeth Cymru a Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) i'w harchwilio. Os a phryd y caiff cynigion y cynllun hwn eu mabwysiadu, bydd y CDLlN yn disodli'r CDLl presennol (2006 i 2026) ac yn sail i benderfyniadau ar gynllunio defnydd tir ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd.

Mae dogfennau'r CDLlN a gyflwynwyd yn cynnwys:

- Adroddiad Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar Adnau
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar Adnau – Datganiad Ysgrifenedig
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar Adnau – Mapiau o'r Cynigion
- Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Cynllun Datblygu Lleol Newydd - Cytundeb Cyflawni Diwygiedig
- Dogfennau Ategol Eraill

Mae copïau o ddogfennau'r CDLlN a gyflwynwyd ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor yn https://www.cdllcaerdydd.co.uk/. Mae copïau o ddogfennau allweddol y CDLlN a gyflwynwyd hefyd ar gael i'w gweld ar gais yn Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW. E-bostiwch CDLl@caerdydd.gov.uk trefnu apwyntiad.

Bydd Arolygydd/Arolygwyr Cynllunio annibynnol yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru i gynnal archwiliad i benderfynu a yw'r Cynllun yn gadarn. Dim ond y personau hynny sydd wedi cyflwyno sylwadau yn ceisio newid y CDLl ar Adnau (Gwrthwynebwyr), y cyflwynwyd eu sylwadau yn briodol, sydd â'r hawl i ymddangos gerbron yr Arolygydd/Arolygwyr Cynllunio a chael eu clywed ganddynt yn ystod yr archwiliad (Adran 64 (6) o Ddeddf 2004).

Bydd hysbysiad yn cael ei roi cyn agor yr archwiliad. Bydd fformat y gwrandawiadau yn cael ei bennu gan yr Arolygydd/Arolygwyr Cynllunio penodedig. Gellir cyfeirio unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r archwiliad at y Swyddog Rhaglen (bydd manylion cyswllt ar gael ar wefan y Cyngor).

Bydd rhagor o fanylion yn cael eu rhyddhau pan fydd ar gael.

Simon Gilbert

Pennaeth Cynllunio